Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** | |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** | |
| **Dyddiad:** | **31 Ionawr 2017** | |
| **Amser:** | **14:00 – 15:00** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Liane James (DBG/DD)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Swyddog Staff Cynorthwyol PC Jo Thompson (JT)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (CG) |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 16/1/17** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2097** | **Rhannu datganiad i'r wasg mewn perthynas â chyfarfod Bwrdd Plismona cyntaf y PG, gan bwysleisio'r berthynas waith gadarnhaol rhwng y CHTh a'r PG** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2098** | **Adolygu Cylch Gorchwyl y Bwrdd Plismona a'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu trafodaethau diweddar** | **CM i'w ddwyn yn ôl i'r cyfarfod nesaf** |
| **PB 2099** | **Trafod adolygiad o'r cytundeb gwasanaethau dadansoddol fforensig mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ymhen 12 mis** | **Cyfredol. Trefnwyd trafodaeth ym mis Rhagfyr '17** |
| **PB 2100** | **Ystyried y gofynion gweithredol mewn perthynas â Gorsaf Heddlu Aberhonddu** | **Ar waith** |
| **PB 2101** | **CHTh i ysgrifennu at Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro'n nodi eu bod nhw eisiau cefnogi egwyddor y cais, ond bod agen gwybodaeth bellach cyn y gallant ymrwymo i hyn** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 31/01/17** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **gan** |

**2. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 16 Ionawr a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir, ond bod angen cywiro gwall teipio ar dudalen un.

PB 2090: 'Ysgogi Ein Hieuenctid': Cyfarfod arall i'w drefnu gyda'r Athro Swyddogion Cyswllt Ysgolion er mwyn trafod y mater ymhellach – cam gweithredu'n parhau.

PB 2100: I'w gymryd ymlaen gan y PSA a'r Cyfarwyddwr Ystadau drwy'r bwrdd ystadau, a bod prosiectau cyfredol, yn arbennig y Pencadlys, yn cael eu trafod yn y bwrdd ystadau – cam gweithredu'n parhau.

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Rhoddodd y PG drosolwg o faterion sefydliadol, gan gynnwys y ffaith bod 6 swyddog/aelod staff wedi'u gwahardd o'r gwaith ar hyn o bryd.

Holodd y CHTh am yr arolygon lles staff, a dywedwyd wrtho fod gwaith yn mynd rhagddo. Dywedwyd wrth y CHTh bod myfyrwyr prifysgol yn dod i mewn i gynorthwyo â'r gwaith o ddadansoddi canlyniadau testun rhydd. Bydd yr atebion arolwg yn cael eu hystyried gan weithgor ym mhob maes a fyddai'n cynnwys prif arolygydd a phrif uwch-arolygydd fel arweinydd i'w yrru ymlaen. Soniodd y CHTh am arolygon ym Mhrifysgol Aberystwyth a arweiniodd at ymgyrch bosteri yn yr un cywair â "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni" mewn ymateb i'r canlyniadau arolwg, ac awgrymodd y dylid ymgymryd ag ymagwedd debyg. Awgrymodd y CHTh y dylid cynnal arolwg dilynol.

Holodd y CHTh am y broses Adolygiad o Ddatblygiad Perfformiad a dywedwyd wrtho fod y CA yn ei arwain. Mae grwpiau ffocws wedi'u cynnal, a bydd JT yn treialu'r system yr wythnos hon. Pwysleisiodd y CHTh yr angen ar gyfer cydgysylltu rhwng y cynllun cyflenwi a'r cynllun heddlu a throseddu a sicrhau y caiff eu cydweddu â'r cynllun adolygiad o ddatblygiad perfformiad. Cynigiodd CM y SCHTh fel ffordd o brofi'r system.

**Cam Gweithredu: PC Thompson i sôn wrth AD am gynnig CM, sef bod SCHTh yn cymryd rhan yn y system adolygiad o ddatblygiad perfformiad.**

Yn ogystal, rhoddwyd trosolwg o ddigwyddiadau gweithredol allweddol, gan gynnwys diweddariadau mewn perthynas â nifer o unigolion coll, digwyddiad arfau saethu ym Meidrim a diweddariad ar achos yn ymwneud â chanfod cyffuriau ar waelod car. Hefyd, cafwyd trafodaeth ynghylch defnyddio cyflau poer. Holodd y CHTh pa un ai a oedd HDP yn eu defnyddio. Cytunodd y DBG/DD i ymchwilio i hyn.

**Cam Gweithredu: DBG/DD i ganfod pa un ai a yw Dyfed-Powys yn defnyddio cyflau poer.**

Cododd y CHTh y mater o wrthdrawiadau traffig y ffyrdd angheuol, gan ofyn am ddiweddariad ar yr ystadegau cyfredol ar gyfer HDP.

**Cam Gweithredu: Yr heddlu i roi diweddariad ynghylch nifer y rhai sy'n marw mewn gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd.**

**4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Dywedodd y CHTh wrth y Bwrdd bod cyfarfod Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC) wedi'i gynnal yr wythnos diwethaf. Roedd y rhan fwyaf o'r trafodaethau'n ymwneud â phortffolios APCC/ Cafwyd trafodaeth ynghylch Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Dywedodd y CHTh y bydd hi'n bwysig cael gwell dealltwriaeth o'n bodlonrwydd â'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i'r cymunedau a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys.

Darparodd y PSA drosolwg o strwythur Bwrdd Diwygio a Thrawsnewid yr Heddlu, a fydd yn comisiynu gwaith, ac mae hefyd yn edrych ar brosiectau. Dywedodd y DBG/DD bod angen i'r holl brosiectau fod yn berthnasol i Gymru a chafwyd trafodaeth am waith sy'n cael ei gomisiynu sydd ddim yn berthnasol i Gymru.

Dywedodd y PSA bod y penderfyniad fformiwla ariannu wedi'i ohirio tan fis Mawrth a nododd y bydd llawer o'r fformiwla'n cael ei yrru gan ddangosyddion trosedd.

Rhoddodd y CHTh drosolwg o'i ymgysylltiad â materion lleol a diweddariad ar staffio o fewn Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus SCHTh.

**5a: Adolygiad chwarterol o'r defnydd o oedolion priodol (PB 2061)**

Cadarnhawyd bod y Pennaeth Dalfeydd wedi rhoi diweddariad mewn cyfarfod o'r bwrdd dalfeydd a'i fod wedi e-bostio staff yn eu cynghori i beidio â defnyddio oedolion priodol yn y lle cyntaf, ond yn hytrach, annog y defnydd o deulu a ffrindiau lle bo hynny'n bosibl

**5b: Cysylltiad Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu â thrin cwynion (PB 2087)**

Cynghorodd CM y dylid rhyddhau'r cam gweithredu hwn oherwydd mae gwaith sy'n mynd rhagddo wedi'i gysylltu ag adolygiad y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae

cynrychiolydd o SCHTh yn mynychu cyfarfodydd chwarterol Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu.

**5c: Diweddariad ynghylch Cyfiawnder Adferol (PB 2083)**

Cadarnhawyd mai'r Arolygydd Dros Dro Jolene Mann yw arweinydd cyfiawnder adferol ar gyfer HDP. Cafwyd trafodaeth ynghylch terfynau amser, a pha un ai a oedd angen comisiynu gwasanaethau. Cytunwyd ei bod hi'n bwysig fod gan HDP gynllun clir mewn perthynas â chyfiawnder adferol. Byddai strwythur sgerbwd yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona mewn 4 wythnos.

**Cam Gweithredu: Amlinellu strwythur ar gyfer cyflwyno cyfiawnder adferol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona mewn 4 wythnos.**

Yn dilyn cydnabyddiaeth o ran eu hymagwedd ragorol tuag at gyfiawnder adferol, roedd PG Heddlu Swydd Gaerloyw wedi cynnig bod cynrychiolwyr o HDP yn ymweld â nhw er mwyn dysgu wrthynt. Cytunwyd y byddai tîm o'r heddlu a SCHTh yn ymweld â Heddlu Swydd Gaerloyw.

**Cam Gweithredu: Tîm o'r heddlu a SCHTh i ymweld â Heddlu Swydd Gaerloyw i ddysgu o'u hymagwedd tuag at Gyfiawnder Adferol.**

**5d: Galluoedd Arbenigol (PB 2093)**

Roedd adroddiad gan Sefydliad yr Heddlu wedi ymchwilio i'r mater hwn ac roedd gwaith cwmpasu cychwynnol yn awgrymu'r syniad o blismona wedi'i rwydweithio. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chynnig cenedlaethol Cronfa Drawsnewidiol ar gyfer galluoedd arbenigol wedi'u rhwydweithio. Cytunwyd y byddai'r CHTh a'r PG yn trafod y mater ymhellach y tu allan i'r cyfarfod.

**Unrhyw fusnes arall**

Cyflwynodd CM gais a dderbyniwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn perthynas â secondiad heddlu i'r tîm lleihau tanau bwriadol. Cytunwyd y byddai prif swyddogion yn ystyried y cais gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn perthynas â secondiad i'r tîm lleihau tanau bwriadol.

**Cam Gweithredu: CM i anfon y cais i'r Heddlu ar gyfer ystyriaeth.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 31/01/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **I'w symud ymlaen gan** |
| **PB 2102** | **PC Thompson i sôn wrth AD am gynnig CM, sef bod SCHTh yn cymryd rhan yn y system adolygiad o ddatblygiad perfformiad.** | **JT** |
| **PB 2103** | **DBG/DD i ganfod pa un ai a yw Dyfed-Powys yn defnyddio cyflau poer.** | **DBG/DD** |
| **PB 2104** | **Yr heddlu i roi diweddariad ynghylch nifer y rhai sy'n marw mewn gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd.** | **PG** |
| **PB 2105** | **Amlinellu strwythur ar gyfer cyflwyno cyfiawnder adferol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona mewn 4 wythnos.** | |
| **PB 2106** | **Tîm o'r heddlu a SCHTh i ymweld â Heddlu Swydd Gaerloyw i ddysgu o'u hymagwedd tuag at Gyfiawnder Adferol.** | |
| **PB 2107** | **CM i anfon y cais i'r Heddlu ar gyfer ystyriaeth.** | **CM** |